



www.capelytraeth.com

Ebrill 2020

Rhif 110

LLYTHYR BYR GAN Y GWEINIDOG

Annwyl Gyfeillion,

Gair byr personol o ddiolch ydi hwn am y ffordd sensitif y trafodwyd y mater pryderus Coronafeirws ym mhwyllgor Swyddogion y ddwy eglwys cyn yr oedfa fore Sul 15 Mawrth, ac am y ffordd ddoeth yr ymdriniwyd â'r sefyllfa yn y drafodaeth gan y gynulleidfa yn y capel yn dilyn hynny.

Nid ar chwarae bach y daethpwyd i'r penderfyniad o beidio â chynnal unrhyw gyfarfod/gweithgaredd yn y capel na'r festri am gyfnod amhenodol, a golygodd y penderfyniad ofid i bawb ohonom. Ond tybiaf ei fod, yn arbennig o wrando'r datblygiadau dyddiol ar y Newyddion, yn benderfyniad oedd rhaid ei wneud, a gweithredu ar fyrder.

Efallai na fydd oedfaon yn y capel na gweithgarwch yn y festri am rai wythnosau, ond gobeithiwn fel aelodau o Eglwys Crist, fod o gymorth i'n gilydd yn y cyfnod anodd hwn. Gwyddom am ddarpariaethau fydd ar gael i'r rhai fydd mewn angen amdanynt, a gallaf eich sicrhau, y byddaf innau ar gael, beth bynnag fydd y gofyn, boed yn sgwrs ffôn, yn neges tecst, neu beth bynnag. Rhoddaf fy nghaniatâd i chi ddeialu un o'r rhifau yma neu anfon e-bost. Rhif ffôn y tŷ: 01766 513138. Rhif ffôn symudol: 07530 974644, a'r cyfeiriad e-bost ydi IwanLlew@aol.com

Gobeithir ail-agor ac ail-ddechrau ein hoedfaon a'n gweithgarwch cyn gynted ag y bo modd. Byddwn yn gwyllo a gwrando'r datblygiadau'n gyson, ac yn gwrando ar lais y Llywodraeth ac ar gyfarwyddiadau'r enwadau yn ganolog.

Fedra i ddim gwneud yn well wrth derfynu na dyfynnu rhan o emyn hyfryd Nantlais (804 Caneuon Ffydd):

'O Iesu'r meddyg da,

Ffisigwr mawr y byd,

O cofia deulu'r poen a'r pla

A'r cleifion oll i gyd.

Tydi yn unig wyr

Holl gystudd plant y llawr,

Y rhai sy'n crefu am yr hwyr,

Yn griddfan am y wawr.'

Cofion a bendith ar bawb ohonoch,

Iwan

Cofion Dyma ni yn eich cyfarch fel hyn ar ddechrau'r Gwanwyn ond yn sylweddoli nad Gwanwyn arferol fydd hwn ond cyfnod pan fydd bob un ohonom yn gorfod bod yn ymwybodol iawn o'r hyn sydd yn digwydd o'n hamgylch mewn sefyllfa sydd yn newid o ddydd i ddydd. Serch hynny mae'n braf gwybod ein bod yn byw mewn cymdeithas ble mae pobl yn gofalu am ei gilydd.

Mae'n braf gallu dweud fod Mr David Jones, Cae Clyd a Mr John Alun Davies, Gorseddfa, yn gwella yn dilyn triniaeth yn ddiweddar. Rydym yn cofio atoch ac yn dymuno adferiad llwyr a buan i chi.

Cylch Trafod Daeth y tymor i ben gyda'n Gweinidog yn arwain y drafodaeth ar y pwnc '**I lan na thref**'. Cawsom gyflwyniad diddorol ganddo a bu trafodaeth dda i ddilyn. Carwn ddiolch o galon i bawb a ddaeth ymlaen i arwain trafodaeth y tymor hwn ac rwyf eisoes wedi cael tri sydd yn fodlon arwain cyfarfod y tymor nesaf. Diolch o galon i chi i gyd ac i'r aelodau a ffrindiau ffyddlon sydd wedi bod mor gefnogol i'r cyfarfodydd yma. Rydym wedi cael nifer dda ym mhob cyfarfod gyda 27 yn y cyfarfod diwethaf. Os nad ydych chi wedi bod cofwch ddod tymor nesaf a fydd yn dechrau ar ôl Y Diolchgarwch. Mae croeso mawr yn eich aros.

Te a Chrempog Ddydd Mawrth Crempog bu nifer dda iawn yn mwynhau te a chrempog yn y Ffestri. Llwyddwyd i godi £560 at y gronfa leol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2021. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd ac i'r chwiorydd gweithgar am ei gwaith caled drwy'r prynhawn.



Mae'r criw genod sy'n gweu, o dan arweiniad medrus Buddug gyda help Catrin ac Eira, yn mynd o nerth i nerth ac yn cyfarfod un bore bob wythnos. Hyd yn hyn rydym wedi gweu hetiau a blancedi i fabis cynnar (premature) Ysbyty Gwynedd, blancedi i bobl di-gartref a phabis coch at Apêl Cyngor Tref Cricieth at Ddiwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop (VE Day) ym mis Mai - bydd rhain yn cael eu harddangos yn y Neuadd Goffa. Mae S4C hyd yn oed wedi bod yn ein ffilmio i raglen deledu Heno!

Mae gennym un aelod nad oedd wedi gweu ers pan oedd yn 6 oed sy'n gweu'n selog hefo ni ac adre erbyn hyn! Mae gennym hefyd ambell un yn gweu yn eu cartrefi gan nad ydynt bellach mewn iechyd i ymuno â ni yn y Ffestri – mae eu cyfraniad hwythau yn cael ei werthfawrogi'n arw. (Ni fyddwn yn cyfarfod am gyfnod oherwydd amgylchiadau a chewch fwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf). *Gwenan*

Y CORONAVIRUS

Er gwaethaf y sefyllfa mae cymorth ar gael. Efallai nad oes Gwasanaeth yn y Capel ond mae Rhieni'r Clwb Sul am addoli mewn ffordd arall drwy fod ar gael i'ch helpu chi.

Pa fath o help?

- Gwneud 'chydig o neges a'i adael ar garreg eich drws.
- Nôl eich prescriptiwn.
- Postio llythyr.
- Nôl eich papur newydd
- Yn bwysicach na dim efallai bod ar gael os ydych angen sgwrs ar y ffôn.

Sut mae hyn yn mynd i weithio? Y bwriad yw rhannu yr ardal yn ddaearyddol a bydd dau set o rieni yn gofalu am bob ardal. Byddwch yn cael cerdyn drwy'r drws yn ystod y dyddiau nesaf ac arno bydd enw a rhifau ffôn y rhai sy'n gofalu am eich ardal chi.

PWYSIG **Peidiwch â gwrthod yr help sydd ar gael.**



Y Clwb Sul Awr ar lan y môr gafwyd y Sul diwethaf, y plant yn mwynhau yr awyr iach a'r rhieni yn trafod sut oeddent am helpu eraill yn ystod y cyfnod ansicr sydd yn ein wynebu ni i gyd.

Eisteddfod yr Urdd Bu nifer o'r plant yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch a chael cryn lwyddiant. Yn anffodus fel yr ydych wedi clywed ni fydd ychwaneg o weithgareddau yr Urdd am eleni ond mae'r plant wedi cael cyfle i ddygsu llawer a mwynhau ymarfer a pherfformio yn Eisteddfod y Capel.



Ennill y mwyaf o bwytiau yn Eisteddfod Capel y Traeth Daeth dau i'r brig eleni sef Swyn a Harri Vaughan. Dyma lun o'r ddau yn derbyn cwpan yr un gan y Gweinidog y Parch Iwan Llewelyn Jones

Clwb Ieuentid Canu, Crefft a Chrempog gafwyd yn y cyfarfod diwethaf o'r Clwb ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



Grŵp Pop y Clwb Sul 'Y Crancod'

